

## Asesiad o Les Lleol Abertawe 2017

### Atodiad 6: Meysydd i'w datblygu, 2017/18

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad Asesiad o Les o 23 Ionawr i 28 Chwefror 2017. Ceir crynodeb o'r cynigion a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad ac ymateb y Bwrdd ar ôl eu hystyried yn Nhabl 2 Adroddiad Adborth yr Ymgynghoriad (Atodiad 5 yr asesiad).

Trafodwyd pob cynnig mewn dau gyfarfod ym mis Mawrth 2017 gydag arweinwyr canlyniadau unigol a chynrychiolwyr o aelodau statudol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe. Dosbarthwyd ymatebion mewn pedair ffordd:

- **D** - Mae'r asesiad wedi'i ddiwygio
- **N** - Ar ôl ystyried, ni wnaed newid
- **Y** - Bydd y Grŵp Ymchwil yn ystyried y mater hwn fel rhan o ddatblygu'r asesiad yn 2017/2018
- **C** - Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried y mater hwn yn un o'i gyfarfodydd dros y 12 mis nesaf.

Mae'r atodiad hwn yn rhoi rhestr gryno o gynigion adborth a ddsberthir fel **Y** neu **C**. Ar ôl ystyried, mae angen datblygiad neu archwiliad pellach arnynt gan:

- i.) Grŵp Ymchwil y BGC, neu'r
- ii.) Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (a/neu Grŵp Cynllunio'r BGC).

#### **i.) Cynigion i'r Grŵp Ymchwil (Y)**

Crynoir isod gynigion yr ymgynghoriad a fydd yn cael eu hystyried gan Grŵp Ymchwil y BGC, sy'n amrywio o gynigion penodol i themâu mwy cyffredinol neu sy'n codi dro ar ôl tro (h.y. gyda phwyntiau tebyg yn codi mewn nifer o ymatebion ar wahân). Gall y pwyntiau a restrir gael eu croesgyfeirio i dabl y cynigion yn Atodiad 5 yr asesiad (adran 2). Mae ymatebion llawn yr ymgynghoriad hefyd wedi'u cynnwys mewn atodiadau unigol yn Atodiad 5.

Cafwyd adborth dro ar ôl tro am y ddau fater canlynol:

- a. Yr angen am fwy o ddadansoddi gofodol/ardal leol, gan gynnwys fesul Ardal Gymunedol
- b. Dadansoddi pellach o dueddiadau yn y tymor hir/dyfodol ar draws canlyniadau a sbardunau.

Er bod rhai o'r pwyntiau a wnaed yn yr ymgynghoriad wedi cael sylw o leiaf yn rhannol yn yr asesiad terfynol\* (2017), teimlwyd bod dal angen archwilio ymhellach i rai materion, gan gynnwys bylchau tystiolaeth penodol.

Dyma'r cynigion a nodir ar gyfer ystyriaeth y Grŵp Ymchwil:

- Bwlch yn y dystiolaeth sy'n ymwneud â'r amgylchiadau lle nad yw digartrefedd wedi'i atal (cynnig 11)
- Priodoldeb y tai sydd ar gael, yn ogystal â'r niferoedd (13) \*
- Effaith tai ar iechyd a lles unigolyn (18)
- Yr angen i sgorau lles gael rhesymau a gyfathrebir yn glir (22) \*\*
- Dadansoddi a chyfathrebu data gofodol ar les a gwahaniaethau ardal yn Abertawe, gan gynnwys rhwng ardaloedd cymunedol (yn gysylltiedig â chynigion 23, 38, 47, 62, 77, 78, 86)
- Dadansoddi pellach o effaith bosib tueddiadau yn y tymor hir/dyfodol ar les lleol dan yr holl ganlyniadau a sbardunau (cynigion 24, 34, 66, 70, 88, 103, 104)
- Gall Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd 2017 helpu i asesu rhagolygon y dyfodol, ymdrin â'r risgiau a chysylltu â'r nod 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' (24) `
- Mae sbardunau amgylcheddol ychydig yn wannach o ran cwmplas na'r rhai cymdeithasol ac economaidd - cysylltiadau rhwng yr amgylchedd naturiol a lles pobl (36) \*\*
- Mae tystiolaeth gymharol lai o ran lles diwylliannol (36) \*\*
- Datblygu asesiad o les pobl yn y gymuned; yn enwedig safbwynt y grwpiau o ddiddordeb a nodwyd yn yr arweiniad statudol (37) \*\*
- Rhwystrau wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig (40)
- Anghenion troseddwr yn y ddalfa ac yn y gymuned (42 a 60)
- Defnydd o'r Gymraeg a'i chysylltiadau â diwylliant (43)
- Materion tai, gan gynnwys y sector rhentu preifat, cartrefi parc ac addasiadau i gartrefi (44)
- Mwy o eglurdeb ar oblygiadau bylchau a chyfyngiadau tystiolaeth, a'r hyn y gellir ei wneud i ymdrin â hwy (45)
- Mwy o amrywiaeth yn y dulliau cyflwyno data (47, 49)
- Defnydd o dystiolaeth ansoddol wedi'i chasglu drwy'r gwaith cynnwys (47 ac 86)
- Gwella'r ymagwedd sy'n canolbwyntio ar asedau, gan gynnwys cyfle i ail-fframio rhan o'r dadansoddiad i bwysleisio ar gryfderau - archwilio cyfleoedd yn ogystal â heriau (48) \*
- Dull o grynhoi'r dystiolaeth naill ai ar lefel y sbardunau neu'r canlyniadau (51) \*\*
- Os bydd sgôr y sbardunau'n cynyddu neu'n lleihau, bydd rhaid i hyn gael ei gyfeirio gan dystiolaeth sydd ar gael a dealltwriaeth o resymau dros hynny (52) \*\*

- Dylid llywio sgôr y sbardunau a'r amcanion trwy gymharu ardaloedd di-Gymraeg - DU arall / 'gorau yn y dosbarth' (55) \*\*
- Dylai canfyddiadau o waith craffu/ymholiadau eraill lywio'r asesiad (57) \*
- Disgrifiad ehangach o heriau lles yn Abertawe yn ystod y tymor byr, canolig a hir i ddarparu cyd-destun ar gyfer y 6 chanlyniad a'r 19 sbardun (61 a 64) \*\*
- Mwy o esboniad o arwyddocâd y data a'r heriau allweddol i les ar draws y 19 sbardun (63) \*\*
- Sut y bwriedir defnyddio data'r asesiad, rheoli bylchau data a sut bydd cynllunio lles yn datblygu (67) \*/\*\*
- Ystyried y data a'r dystiolaeth sydd ar yr agenda ataliol i gael dealltwriaeth gliriach o gymunedau a phobl wydn neu bobl sy'n agored i dueddiadau presennol a rhai'r dyfodol (71 a 95) \*\*
- Dylai adrannau crynodeb / 'Ynghylch y canlyniad hwn' fod yn fwy pendant am eu heffaith ar les - gallai'r nodau cenedlaethol fod o ddefnydd ar gyfer hyn (75) \*\*
- Cynnwys mwy o ddata ar ynni, dŵr a thrafnidiaeth hanfodol ac isadeiledd hanfodol arall (79) \*
- Mae'r adrannau 'Ynghylch y dystiolaeth' yn darparu adnodd da i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddeall bylchau mewn data a'r potensial i fynd i'r afael â hwy (90 a 108) \*\*\*
- Canlyniad B - trafodaeth gyfyngedig a geir o'r Prifysgolion neu'r Colegau yn Abertawe ac ni soniwyd am addysg barhaus (92) \*
- Ystyriaeth bellach o'r rhyng-berthnasoedd rhwng y data a'r 19 sbardun (101) \*\*
- Ystyriaeth bellach o faterion cydlyniant cymunedol - yn gysylltiedig â Chynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol Cenedlaethol 2017-18 a'r nod cenedlaethol 'cydlyniant cymunedol (113).

#### Nodiadau:

Gwnaed newid i'r asesiad terfynol hefyd (dosbarth D)

\*\* I'w ystyried trwy adroddiad gwerthuso asesiad lles arfaethedig.

\*\*\* Paratoir adroddiad ar wahân gan Grŵp Ymchwil y BGC sy'n manylu ar fylchau tystiolaeth a nodir uchod ac yn y ddogfen asesu.

#### **ii.) Ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (C), a/neu Grŵp Cynllunio'r BGC**

I grynhoi, mae Adroddiad Adborth yr Ymgynghoriad (Atodiad 5) yn awgrymu bod angen ystyriaeth bellach ar lefel y Bwrdd, a/neu (mewn rhai achosion) gan Grŵp Cynllunio'r BGC ar y materion canlynol. Mae'r cynigion hyn (ar sail unigolion a grwpiau), yn ogystal ag ymateb cytunedig y BGC, wedi'u rhestru isod:

- Cynnig 19 - diffyg cynrychiolaeth o'r celfyddydau ar yr agenda lles. Ymateb: I'w ystyried mewn cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Cynigion 20, 21, 27, 50, 68, 102 - integreiddio rhwng y sbardunau asesu lleol a llinynnau a nodau lles cenedlaethol. Ymateb: Argymhellir bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnal gweithdy arbennig i fynd i'r afael ag integreiddio.
- Cynigion 25, 28, 29, 30, 32, 33, 69, 98, 100. Ymateb: Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei drafod mewn cyfarfod dan y teitl 'Gwaith partneriaeth a chynnwys rhanddeiliaid.'
- Cynigion 26, 31, 65, 105, 107 - y cyfle am weithio trawsffiniol, gan gynnwys materion/blaenoriaethau sy'n gyffredin ag ardaloedd BGC lleol eraill. Ymateb: Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei drafod mewn cyfarfod dan y teitl 'Gweithio trawsffiniol'.
- Cynigion 74, 80, 89, 97, 101 - materion sy'n gysylltiedig â'r cynllun lles a sut bydd y BGC yn defnyddio tystiolaeth yn yr asesiad wrth fynd ymlaen:
  - 74. Mae'n rhaid deall y berthynas rhwng amcanion strategol dan chwe chanlyniad y BGC a'r nodau cenedlaethol.
  - 80. Mae'r wybodaeth yn rhoi gwybod i ni a yw gwasanaethau'n addas ac am rôl bosib y BGC wrth ddatblygu gweithrediad ar y cyd. Gallai'r asesiad gael ei gryfhau drwy ddadansoddi negeseuon allweddol i'r BGC a'r sector cyhoeddus yn gyffredinol am y 'newid fesul cam' sydd ei angen i fynd i'r afael â'r 19 sbardun
  - 89. Dau gwestiwn allweddol yw sut gellid cyflawni'r 'gwelliannau', a beth yw rôl y BGC wrth wneud hyn?
  - 97. Dylai materion craidd a ddisgrifir yn yr adroddiad ddarparu cefndir cryfach i bob sbardun (plant sy'n byw mewn tlodi; adnoddau cyfyngedig i ofal cymdeithasol; diffyg darpariaeth tai; diwygio lles; effeithiau'r hinsawdd; cyni; dirywiad adnoddau naturiol), a gallai data a gwybodaeth bresennol helpu i ddarparu cyd-destun strategol eang
  - 101. Mwy o ystyriaeth o'r rhyng-berthnasoedd rhwng data ym mhob adran; gan gynnwys perthynas polisi/heriau rhwng y 19 sbardun  
Ymateb: Ymdrinnir â materion fel rhan o ddatblygu'r cynllun lles.
- Cynigion 95, 110 - atal a deall ymagweddau ataliol. Ymateb: I'w ystyried gan y BGC neu'r Grŵp Cynllunio (trwy weithdy neu Asesiad Effaith Integredig).
- Cynnig 106 - dehongliad pellach o sut y gallai Prosiect Dinas-ranbarth Bae Abertawe effeithio ar bob agwedd ar les cymunedol yn Abertawe. Ymateb: Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei ystyried mewn cyfarfod dan y teitl 'Effeithiau Cymdeithasol, Amgylcheddol ac Economaidd y Fargen Ddinesig'.

